**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 16-02(p7)**

**Dyddiad:** **14 Tachwedd 2002**
**Amser:** **9.00 tan 12.30**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **Gwella data economaidd ar gyfer Cymru**

## Diben/Crynodeb

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am hynt yr ymdrech i wella'r ystadegau economaidd sydd ar gael ar gyfer Cymru.

## Cefndir

2. Ym mhapur EDC 14-01, 'Gwella Ystadegau Economaidd ar gyfer Cymru', a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 14 Tachwedd 2001, cafodd y Pwyllgor fraslun o'r prosiectau a oedd eisoes ar waith, neu a oedd yn cael eu hystyried, i sicrhau bod ystadegau economaidd o ansawdd uchel ar gael, a'r rheini'n ystadegau amserol. Mae'r papur hwn yn crynhoi'r hyn a wnaed ers mis Tachwedd 2001.

## Camau ers mis Tachwedd 2001

3. Mae'r tabl yn atodiad 1 yn dangos hynt pob un o'r prosiectau y cyfeiriwyd atynt ym mhapur EDC 14-01, ynghyd â'r cynlluniau ar eu cyfer. Dyma'r prif bwyntiau:

- mae data estynedig yr Arolwg o'r Llafurlu (LFS) ar gyfer 2001 bellach wedi'i gwblhau ac fe'i cyhoeddir ar 13 Tachwedd 2002. Dyma benllanw dwy flynedd o gynllunio, casglu a datblygu canlyniadau ac mae'n golygu y bydd data Cymru'n cyd-fynd â data rhanbarthau Lloegr. Mae'r LFS estynedig yn rhoi gwybodaeth flynyddol fwy dibynadwy, ar lefel Cymru ac ar lefel yr awdurdodau unedol, ar amryw helaeth o bynciau gan gynnwys gweithgarwch economaidd, cyflogaeth, diweithdra, ethnigrwydd, addysg, hyfforddiant a'r Gymraeg. Bydd y prif ddata'n ymddangos mewn cyhoeddiad cryno a gyhoeddir ar y cyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a'r Cynulliad. Bydd y canlyniadau wedi'u croesdablu mewn nifer o fannau gan gynnwys gwefan NOMIS: http://www.nomisweb.co.uk/ neu drwy'r wefan Ystadegau Gwladol: http://www.statistics.gov.uk/. Mae'r data wrthi'n cael ei gasglu ar gyfer ail flwyddyn yr estyniad.
- mae'r Ymchwiliad Busnes Blynyddol (ABI) estynedig bron wedi'i gwblhau. Rhagwelir y bydd y data cyflogaeth yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2002 ac y bydd yr elfennau gwerth ychwanegol gros (elw) ar gael o ddechrau'r haf 2003.
- mae astudiaeth ddichonoldeb y Mynegai Dosbarthu (IoD) wedi'i chwblhau ac mae'n nodi'r hyn y bydd angen ei wneud er mwyn llunio Mynegai Cymreig. Mae'r adroddiad ar

gael ar wefan y Cynulliad: http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwalesreference/index.htm. Y cam nesaf fydd comisiynu'r ONS i ddatblygu Mynegai Cymreig.

- mae Ymchwiliad Blynyddol y Gofrestr (ARI) wedi'i estyn yn gynt na'r disgwyl. Anfonwyd y ffurflenni ddiwedd yr haf 2002. Bydd yr ARI yn gwella ansawdd y gofrestr fusnes, a ddefnyddir yn sail i gasglu holl ddata ymchwiliad busnes yr ONS.
- cymerwyd camau tuag at roi amcangyfrifon o'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) yn y tymor byr. Mae'r ONS wedi llunio adroddiad drafft, "Plan for Improvement of Economic Statistics for Wales", sy'n cynnwys amserlen a chost rhoi amcangyfrif o CMC Cymru yn y tymor byr. Pan fydd yr Ystadegydd Gwladol wedi cymeradwyo'r adroddiad caiff ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru a bydd ar gael ar wefan y Cynulliad.

**Materion Eraill**

4. Yr ONS sy'n gyfrifol am gynhyrchu ystadegau economaidd ledled y DU a rhagwelir y bydd y datblygiadau hirdymor o ran seilwaith yn cynnig gwelliannau i Gymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trafod y cynlluniau hyn â'r ONS ar hyn o bryd. Mae ystadegwyr y Cynulliad hefyd yn gweithio'n agos â'u cydweithwyr yn Uned Ymchwil a Gwerthuso Economaidd y Cynulliad i sicrhau bod ystadegau'r rhaglen wella'n ategu rhaglen waith yr Uned.

**Cydymffurfio**

5. Mae'r mentrau i wella ystadegau economaidd yn dod o dan adran 40 Deddf Llywodraeth Cymru a arferir law yn llaw â swyddogaethau statudol eraill sydd wedi'u dirprwyo. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb.

**Goblygiadau Ariannol**

6. Nid oes goblygiadau ariannol i'r Cynulliad yn deillio o'r papur hwn.

Er gwybodaeth i'r pwyllgor gwariodd y Cynulliad tua £1 filiwn yn 2001-2002. Mae Llinell Wariant y Gyllideb (BEL) ar Wella Ystadegau Economaidd a'r Farchnad Lafur yn rhoi £1.014 miliwn i'r prosiectau yn 2002-2003 a £1.205 miliwn yn 2003-2004. Yn 2002-2003 mae'r gyllideb hon yn rhan o Brif Grwp Gwariant (MEG) 'Gwasanaethau Eraill y Cynulliad'.

**Cysylltiad â'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol**

7. Bwriedir i nifer o'r mesurau a restrir yn atodiad 1 gyfrannu at Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru (Cymru'n Ennill) a monitro'i heffaith

drwy asesu ei hynt yn erbyn targedau mesuradwy. Er enghraifft:

- bydd yr Arolwg o'r Llafurlu ar ei ffurf estynedig yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy ar weithgarwch economaidd, cyflogaeth, diweithdra, cymwysterau a chyfle cyfartal, yn enwedig ar lefel is na Chymru;

- bydd yr Ymchwiliad Busnes Blynyddol ar ei ffurf estynedig yn rhoi gwybodaeth ar batrwm y diwydiant yng Nghymru ac yn rhoi gwell gwybodaeth sylfaenol a fydd yn bwydo i CMC a mesurau eraill;

- mae'r Mynegai Cynhyrchu ac Adeiladu yn rhoi gwybodaeth reolaidd ac amserol ar weithgarwch y sectorau hyn yng Nghymru o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU;
- byddai Mynegeion ar gyfer y Sectorau Dosbarthu a Gwasanaethau yn rhoi'r un math o wybodaeth ar gyfer y sectorau hynny;
- bydd yr ymdrech i ddatblygu CMC chwarterol ar gyfer Cymru'n helpu i fonitro twf CMC Cymru fesul unigolyn.

**Camau i'w cymryd**

8. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r camau a gymerwyd hyd yma a'r cynlluniau i wella ystadegau economaidd yn y dyfodol.